

No.

CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 10 Mai, 2023

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Susan Lloyd Selby (Maer); Councillors Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Robert Fisher, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Howard Hamilton, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Edward Williams, Margaret Wilkinson, Mark Wilson a Nicholas Wood

1 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd Anthony Ernest.

2 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

3 ETHOL MAER -

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Marshallsea a'i eilio gan y Cynghorydd Loveluck-Edwards bod y Cynghorydd Aviet yn cael ei hethol yn Faer.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Carroll a'i eilio gan y Cynghorydd Charles bod y Cynghorydd Godfrey yn cael ei ethol yn Faer.

Ar ôl pleidleisio

PENDERFYNWYD – BOD y Cynghorydd J. Aviet yn cael ei phenodi'n Ddirprwy Faer y Cyngor ar gyfer y flwyddyn Ddinesig ddilynol.

4 PENODI DIRPRWY FAER -

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sivagnanam a'i eilio gan y Cynghorydd Neil Thomas bod y Cynghorydd Penn yn cael ei ethol yn Ddirprwy Faer.

No.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Carroll a'i eilio gan y Cynghorydd Charles bod y Cynghorydd Godfrey yn cael ei ethol yn Ddirprwy Faer.

Ar ôl pleidleisio

PENDERFYNWYD – BOD y Cynghorydd E. Penn yn cael ei benodi'n Ddirprwy Faer y Cyngor ar gyfer y flwyddyn Ddinesig ddilynol.

5 CYFEIRIAD Y MAER -

Fel Maer newydd Bro Morgannwg, mynegodd y Cynghorydd Aviet ddiolch i'r Cynghorwyr Marshallsea a Loveluck-Edwards am eu henwebiadau a'u geiriau caredig.

Dywedodd mai braint ac anrhydedd oedd cael cynrychioli Bro Morgannwg a'i bod yn falch o draethau, parciau a chefn gwlad prydferth Bro Morgannwg ac o'r bobl yn eu holl amrywiaeth.

Tynnodd y Maer sylw at broblemau digartrefedd, chwalfa deuluol, cam-drin domestig, salwch sydyn, anabledd, anabledd cudd, caethiwed, colli swydd, anhwylder straen wedi trawma, unigedd, unigrwydd a phrofedigaeth, gan ddweud bod y rhain yn bethau a allai gyffwrdd â bywydau pobl ar unrhyw bryd.

Yn ystod ei thymor yn ei swydd, roedd hi'n gobeithio cyfleu dwy neges ar draws Bro Morgannwg, sef bod angen ymfalchïo yn yr ardal yr oeddem yn byw ynddi a bod ag empathi tuag at eraill.

I gloi, dywedodd y Maer mai ei chydymaith ar gyfer y flwyddyn yn ei swydd fyddai ei chyfaill, Mr. Brian Morris, a'i Hoffeiriad fyddai'r Parchedig Ganon Pat O'Gorman.

6 PLEIDLAIS O DDIOLCH I'R MAER SY'N YMDDEOL A CHYFEIRIAD Y MAER SY'N YMDDEOL –

Manteisiodd y Maer ar y cyfle i ddiolch i'r Maer oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Lloyd-Selby am y modd y bu'n cynrychioli'r Cyngor yn ystod ei blwyddyn yn y swydd, ac yn Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor Llawn. Ar ran holl Aelodau'r Cyngor, swyddogion a thrigolion Bro Morgannwg, diolchodd hefyd i'r Cynghorydd Lloyd-Selby am ei hymrwymiad i ddyletswyddau dinesig ac am ei gwaith caled a'i hymroddiad dros gyfnod a oedd yn arbennig o heriol.

Dywedodd y Maer ei bod yn ymwybodol bod y Cynghorydd Lloyd - Selby wedi achub ar bob cyfle i ddiolch i'r holl bobl a oedd wedi rhoi cymorth i'r anghenus, ac a oedd wedi rhoi o'u hamser yn hael i ofalu a rhannu eu cyfeillgarwch.

Dymunodd y Maer yn dda i'r Cynghorydd Lloyd-Selby a'i gŵr yn y dyfodol, ac roedd hi'n anrhydedd iddi gael camu i'r rôl yr oedd y Cynghorydd Lloyd-Selby wedi'i chyflawni'n raslon, a gobeithiai y gallai, gyda chefnogaeth y Cyngor, fod mor gymwys ag y bu'r Cynghorydd Lloyd-Selby wrth gyflawni'r ddyletswydd honno.

No.

Mynegodd y Maer a oedd yn ymddeol longyfarchiadau i'r Cynghorydd Aviet ac i'r Dirprwy Faer ar gael eu hethol i'w swyddi, gan ddweud wrth y Cyngor ei bod wedi cael blwyddyn brysur a boddhaus fel Maer, a diolchodd i bawb a'i cefnogodd. Yn gyntaf oll dymunai ddiolch i'w gŵr Mark fu'n gydymaith mor ardderchog, ac a oedd bob amser wrth ei hochr.

Diolchodd y Maer a oedd yn ymddeol hefyd i'r Maer, am ei rôl fel Dirprwy Faer a'i chydymaith Brian Morris, am gefnogi'r digwyddiadau na fu modd iddi fod yn bresennol ynddynt yn ystod y flwyddyn. Diolchodd hefyd i'w Chaplan, y Parchedig Phil Morgan, yn oedd ei weddïau a'i gefnogaeth wedi bod yn amhrisiadwy iddi.

Mynegodd y Cynghorydd Lloyd-Selby hefyd ddiolch o galon i staff yn nhîm y Gwasanaethau Democrataidd a oedd wedi bod yn wych am ei chynghori a'i chefnogi, yn enwedig yn ystod y gofynion a'r cyfrifoldebau a oedd wedi codi yn dilyn marwolaeth y ddiweddar Frenhines Elizabeth, gan ddweud bod y Cyngor yn ffodus i gael swyddogion mor weithgar a medrus.

Wrth wneud sylwadau ar ei blwyddyn, fu'n un hanesyddol, roedd hi wedi cael y fraint o arwain digwyddiadau ar ran y Fro i nodi marwolaeth y ddiweddar Frenhines Elizabeth II a phroclamsiwn y Brenin Siarl III, a hefyd wedi gallu cydnabod ein dyled i gyn-filwyr a'r rhai sy'n gwasanaethu yn y lluoedd ar hyn o bryd drwy ddiwyddiadau fel Diwrnod y Lluoedd Arfog, Sul y Masnachlongwyr ac, yn fwy diweddar, yn cynnal munud o dawelwch i gofio blwyddyn ers ymosodiad barbaraid Rwsia ar Wcráin.

Dywedodd y Maer a oedd yn ymddeol mai'r hyn yr oedd rôl y Maer yn ei olygu iddi hi oedd gwasanaeth, a'i bod wedi bod yn bleser cefnogi digwyddiadau cymunedol ar draws y Fro, a chael cwrdd yn arbennig â chynifer o wirfoddolwyr hyfryd ac anhunanol a oedd yn rhoi o'u hamser i wasanaethu pobl ar draws y Sir. Beth bynnag fo'u gwaith - cadw golwg i sicrhau ein bod yn ddiogel yn y môr, darparu parseli bwyd i rai mewn argyfwng ariannol, rhoi cyfleoedd gwych i blant a phobl ifanc drwy grwpiau sgowtiaid a geidiaid, gweithgareddau chwaraeon, codi arian i gefnogi gweithgareddau elusennol - ac enwi ond ychydig, dywedodd fod eu hymroddiad i helpu eraill wedi gwneud iddi deimlo'n wylaidd ac yn fodd i'w hysbrydoli.

Roedd Sefydliad y Maer hefyd wedi gallu rhoi cyllid i gefnogi 30 o grwpiau yn ystod ei blwyddyn yn y swydd, ac roedd hi'n ddiolchgar i bawb a oedd wedi'i chroesawu dros y flwyddyn ddiwethaf, ac wedi rhoi cyfle iddi fod â rhan fach yn y gwaith rhagorol sy'n digwydd.

Gorffennodd y Maer a oedd yn ymddeol drwy ddymuno blwyddyn lwyddiannus a boddhaus i'r Maer newydd yn ei swydd.

7 TREFNIADAU GWEITHREDOL - AELODAETH Y CABINET A PHORTFFOLIOS (PW) –

Roedd Adran 4.10.1(f) o'r Cyfansoddiad "Rheolau Gweithdrefn y Cyngor - Cyfarfod Blynyddol y Cyngor" yn cynnwys darpariaeth y byddai'r Arweinydd yn rhoi gwybod yn y

No.

Cyfarfod Blynyddol beth oedd enwau'r Cynghorwyr a ddewiswyd i fod yn Ddirprwy Arweinydd a nifer ac enwau'r Aelodau i'w penodi i'r Cabinet, a'u portffolios / cyfrifoldebau, ynghyd â chadarnhad yr Arweinydd y byddai Aelodau'r Cabinet, yn rhan o'u portffolios, yn cael eu dynodi yn "Hyrwyddwyr" y Cyngor.

Yn ôl Adran 5.2 y Cyfansoddiad "Ffur a Chyfansoddiad y Weithrediaeth" byddai'r Cabinet yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac o leiaf dau, ond dim mwy na naw, o Gynghorwyr eraill wedi'u penodi i'r Cabinet gan yr Arweinydd.

Roedd yr adroddiad yn argymhell y dylai'r deiliad swydd a nodir barhau i gyflawni'r "Rolau Hyrwyddwr" canlynol:

- Hyrwyddwr Craffu - Cadeirydd Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu;
- Hyrwyddwr Datblygu'r Aelodau – Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd.

Wrth gyflwyno'r adroddiad a'r wybodaeth atodol, dechreuodd yr Arweinydd drwy ddweud bod y Cynghorydd Margaret Wilkinson wedi dweud wrthi ei bod, gyda thristwch, yn bwriadu camu i lawr o'i rôl portffolio i ganolbwyntio ar ei hiechyd. Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r Cynghorydd Wilkinson am ei gwasanaeth diysgog i'w rôl ar y Cabinet, a dywedodd y byddai'r swydd yn aros yn wag gyda chyfrifoldebau'r portffolio am y tro yn cael eu rhannu rhyngddi hi ei hun a'r Cynghorydd Gwyn John.

PENDERFYNWYD

(1) NODI, fel y cynghorwyd gan yr Arweinydd, y byddai'r Cynghorydd B.E. Brooks yn Ddirprwy Arweinydd ac y dylid nodi Aelodau'r Cabinet, ynghyd â manylion eu portffolios fel a nodir isod, ynghyd â'r rolau "Hyrwyddwr" dynodedig fel yr amlinellwyd yng [Ngwybodaeth Ategol](#) yr adroddiad:

- Y Cynghorydd Lis Burnett - Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau;
- Y Cynghorydd B.E. Brooks - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy;
- Y Cynghorydd R.M. Birch - Yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg
- Y Cynghorydd G. John - Yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles
- Y Cynghorydd Ruba Sivagnanam - Yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoliadol
- Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid (Swydd Wag – portffolio i'w rannu rhwng y Cynghorwyr Burnett a John hyd nes y clywir yn wahanol)
- Y Cynghorydd E. Williams - Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Y Cynghorydd M.R. Wilson - Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu

(2) BOD Cadeirydd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd yn parhau i gael eu dynodi'n Hyrwyddwyr Craffu a Datblygu Aelodau'r Cyngor yn y drefn honno.

No.

(3) NODI taliadau'r Cyngor o Uwch Gyflogau ar gyfer 2023/24 yn unol â'r hyn a nodir ym mharagraff 2.1 yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) I gydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor.

8 PWYLLGORAU CRAFFU: PENODIAD, AELODAETH, CYLCH GORCHWYL A DYRANNU SWYDDI'R CADEIRYDD (PW) -

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, roedd gofyniad yn bodoli yn gysylltiedig â dyrannu swyddi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu. Yn ei hanfod, roedd gan unrhyw Grŵp, neu Grwpiau, wedi'u cynrychioli ar y Cabinet hawl (o'u cymryd gyda'i gilydd) i gyfran o swyddi Cadeirydd Pwyllgor Craffu a oedd yn gyfwerth â chyfanswm eu seddi (o'u cymryd gyda'i gilydd) ar y Cyngor. Ar ôl gwneud y cyfrifiad hwn, daeth swyddi'r Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu a oedd yn weddill yn "eiddo" i Grwpiau nad oeddent ar y Cabinet (unwaith eto, i'w dyrannu'n gymesur â chyfanswm y seddau a oedd yn cael eu dal gan y Grwpiau perthynol ar y Cyngor).

Roedd Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi Cylch Gorchwyl, rôl gyffredinol a swyddogaethau penodol y Pwyllgorau Craffu, ac roedd copi o'r cyfansoddiad hwnnw wedi'i gynnwys yn Atodiad B yr adroddiad. Dosbarthwyd aelodaeth y Pwyllgorau Craffu cyn y cyfarfod ar ffurf Gwybodaeth Atodol yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan Arweinwyr y Grwpiau.

PENDERFYNWYD -

(1) Y DYLID penodi'r Pwyllgorau Craffu, ynghyd â'u Haelodaeth a'u Cylchoedd Gorchwyl fel y nodir yn Atodiad B a [Gwybodaeth Ategol](#) yr adroddiad, am y Flwyddyn Ddinesig ddilynol.

(2) BOD dyrannu Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu penodol, fel y'u hysbyswyd gan yr Arweinwyr Grŵp perthnasol fel y nodir ym mharagraffau 2.1 i 2.3 o'r adroddiad ac yn y Wybodaeth Atodol, fel y dangosir isod, i'w nodi:

- Y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol - Y Cynghorydd J. Protheroe
- Y Pwyllgor Craffu ar yr Amgylchedd ac Adfywio - Y Cynghorydd S.D. Perkes
- Y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol - Y Cynghorydd J.E. Charles
- Y Pwyllgor Craffu Tai a Chymunedau Diogel - Y Cynghorydd A.M. Collins
- Y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant – y Cynghorydd R.R. Thomas.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

No.

9 PWYLLGORAU LLED-FARNWROL, PWYLLGORAU A CHYRFF ERAILL:
PENODIAD, CYLCH GORCHWYL AC AELODAETH (CX) -

Roedd yr adroddiad yn atgoffa'r Aelodau o'r angen i roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth a ddaeth i rym ar 5 Mai, 2017 a oedd yn rheoli maint a chyfansoddiad Pwyllgorau Cynllunio.

Daeth Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 ag Adran 39 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 i rym, gan roi dehongliad manwl o'r Adran hefyd, i'r graddau yr oedd yn berthnasol i faint a chyfansoddiad Pwyllgorau sy'n cyflawni swyddogaethau.

Roedd cyfrifiad o'r cydbwysedd gwleidyddol gofynnol ar gyfer Pwyllgorau, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1989, wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Roedd aelodaeth y Pwyllgorau Lled-farnwrol, Pwyllgorau a Chyrff Eraill wedi'i rhannu cyn y cyfarfod ar ffurf Gwybodaeth Atodol yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Arweinwyr y Grwpiau. Wrth gyflwyno'r adroddiad tynnodd yr Arweinydd sylw at Aelodaeth y Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb, fel y nodwyd ym mharagraff (v) o'r wybodaeth Atodol gan ddweud y byddai'r fforwm yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet Ymgysylltu Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio.

PENDERFYNWYD -

(1) Y DYLID penodi'r Pwyllgorau Lled-Farnwrol, Pwyllgorau a Chyrff Eraill, ynghyd â'u Cylch Gorchwyl (Atodiad B) a'u Haelodaeth, fel y nodir yn y [Wybodaeth Ategol a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod ac a gyflwynwyd yn yr adroddiad, ar gyfer y Flwyddyn Fwrdeistrefol ddilynol.](#)

(2) CYTUNO, o ystyried yr angen i gydymffurfio â maint a chyfansoddiad Rheoliadau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 wrth bennu maint a chyfansoddiad y Pwyllgor Cynllunio, ar yr aelodaeth fel yr amlinellir ym mharagraffau 2.3 i 2.5 yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1a2) Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

10 DYDDIADAU CYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR (CX) -

PENDERFYNWYD – BOD cyfarfodydd cyffredin y Cyngor yn cael eu cynnal ar y dyddiadau canlynol i'w nodi:

- 24 Gorffennaf 2023
- 25 Medi 2023
- 4 Rhagfyr 2023/4 Mawrth 2024
- 29 Ebrill 2024

11 ETHOL CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION PWYLLGORAU (CX)

Roedd y Pwyllgorau yr oedd Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion i'w penodi iddynt yn y Cyfarfod Blyneddol yn cynnwys yr holl gyrrff yn y tabl cydbwysedd gwleidyddol (a oedd wedi'i gynnwys yn Eitemau Agenda Rhifau 7 ac 8), ac eithrio'r rhai a nodwyd yn Eitem Agenda 10 lle'r oedd darpariaethau deddfwriaethol, neu drefniadau eraill manwl yn berthnasol ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau yn cael eu penodi fel y nodir isod ar gyfer y flwyddyn Ddinesig ganlynol:

<u>Apeliadau:</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Y Cyngorydd I. Buckley Y Cyngorydd S.C. Lloyd-Selby
<u>Cymuned Cydgysylltu:</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Y Cyngorydd S.M. Hanks Y Cyngorydd M.R. Wilson
<u>Democrataidd Gwasanaethau:</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Y Cyngorydd Dr I.J. Johnson Y Cyngorydd S. Haines
<u>Disgresiynol Taliadau Tai: Adolygu</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Y Cyngorydd H.C. Hamilton Y Cyngorydd J. Lynch-Wilson
<u>Ymddeoliad Cynnar/ Dileu Swyddi:</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Y Cyngorydd P. Drake Y Cyngorydd H.C. Hamilton
<u>Treftadaeth Morgannwg Cynghori Arfordir:</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Y Cyngorydd C. Stallard Y Cyngorydd Emma Goodjohn
<u>Ymchwilio:</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Y Cyngorydd H.M. Payne Cyngorydd C. Iannucci
<u>Cynllunio:</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Y Cyngorydd N.C. Thomas Y Cyngorydd S.D. Perkes
<u>Gwarchod y Cyhoedd Trwyddedu:</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Y Cyngorydd P. Drake Y Cyngorydd J.M. Norman
<u>Trwyddedu Statudol</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Y Cyngorydd P. Drake Y Cyngorydd J.M. Norman
<u>Uwch Reolwyr Penodi</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Arweinydd (Y Cyngorydd L. Burnett) Dirprwy Arweinydd (Y Cyngorydd B.E. Brooks)

No.

<u>Ymddiriedolaeth:</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Y Cynghorydd H.C. Hamilton Y Cynghorydd M.R. Wilson
<u>Sector wirfoddol Cydgysylltu:</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Y Cynghorydd R.M. Birch Y Cynghorydd S.C. Lloyd-Selby
	Is-gadeirydd Anrhydeddus	I'w benodi o blith y 7 cynrychiolydd o'r Sectorau Gwirfoddol ac Iechyd
<u>Ystâd Deddf Yr Eglwys yng Nghymru:</u>	Cadeirydd: Is-gadeirydd:	Y Cynghorydd M.R. Wilson Y Cynghorydd P. Drake

(2) YR ymdrinnir â'r Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau sy'n weddill fel y nodir yn yr adroddiad, ar yr amod y nodir bod y Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoliadol.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1a2) Er mwyn cydymffurfio â'r trefniadau penodol sy'n gymwys ar hyn o bryd neu ddeddfwriaeth berthnasol